Mae'r ymateb yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This response is also available in Welsh.

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**i'r Ymgynghoriad ar y Cod Ymddygiad a Gweithdrefnau Cysylltiedig ar gyfer aelodau'r Senedd**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cod Ymddygiad a Gweithdrefnau Cysylltiedig ar gyfer aelodau'r Senedd.

**Ein rôl**

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion bod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod. Rwyf hefyd yn gallu ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Gallaf ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat. Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd imi o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn fy nghaniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Sefydlodd y Ddeddf hefyd yr Awdurdod Safonau Cwynion (ASC) i sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol.

**Sylwadau Cyffredinol**

Er bod ymddygiad Aelodau'r Senedd y tu hwnt i'm hawdurdodaeth, croesawaf y cynigion fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori. Trwy gynnwys yr egwyddor o 'Barch', mae'r newidiadau arfaethedig yn sicrhau bod Egwyddorion y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Senedd ac egwyddorion y Cod ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol,

fel y nodir yn Atodlen 1 Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001, yn cydweddu â'i gilydd yn well. Rwyf o'r farn y dylai'r Egwyddorion hyn fod yn sail i bob ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru fel bod dull clir a chyson sy'n hybu hyder y cyhoedd yn ein cyrff democrataidd yng Nghymru.

Ategir y cydlyniad hwn gan debygrwydd arall i'r Cod Enghreifftiol megis ei ddarpariaethau gorfodadwy a'i gymhwysiad i fywydau cyhoeddus a phreifat aelodau. I egluro beth y mae hyn ac agweddau eraill ar y Cod Enghreifftiol yn ei olygu i aelodau awdurdod lleol, rwyf wedi cyhoeddi Ganllawiau i helpu aelodau i ddeall eu rhwymedigaethau ac i esbonio unrhyw bwyntiau amwys. Er enghraifft, mae'r Canllawiau yn sefydlu, er y dylai aelodau fod â hawl i breifatrwydd yn eu bywydau personol, gall fod adegau pan fydd ymddygiad aelodau yn effeithio ar enw da ac uniondeb eu hawdurdod lleol perthnasol.

Felly, rwy'n cefnogi'r argymhelliad i gyhoeddi dogfen Ganllaw ar wahân ar gyfer y Cod Ymddygiad i Aelodau'r Senedd ac rwy'n cynnig fy nghyhoeddiad fel enghraifft ddefnyddiol o arfer da y gallai'r Pwyllgor Safonau dynnu ohoni. Rwyf wedi adolygu'r Canllawiau hyn yn ddiweddar a chyn bo hir byddaf yn ymgynghori'n gyhoeddus ar Ganllawiau drafft newydd.

Mae rôl annibynnol y Comisiynydd Safonau yn debyg iawn i fy un i. Os canfyddaf fod modd cyfiawnhau'r gŵyn a bod hynny er budd y cyhoedd, gallaf ei chyfeirio at Bwyllgor Safonau'r awdurdod perthnasol, neu i dribiwnlys a gynullir gan Banel Dyfarnu Cymru, i wneud penderfyniad ar y materion. Yn achos cwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd, rwyf o'r farn y gallai Pwyllgor Safonau'r Senedd benderfynu ar unrhyw achosion gan fod y Comisiynydd Safonau wedi'i benodi'n annibynnol i ymchwilio i gwynion. Mae'r broses hon yn cynnwys cyfle i gael cynrychiolaeth gan Aelodau a byddai'n caniatáu craffu priodol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Felly, yn naturiol, mae'n cynnwys mecanwaith apelio neu adolygu annibynnol.

**Sylwadau cloi**

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi. Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed gennym, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, fy Mhennaeth Polisi (tanya.nash@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Ionawr 2021**